Pecyn Dogfennau

CABINET

DYDD LLUN, 13 CHWEFROR 2023

PRESENNOL Cynghorydd D Price (Cadeirydd)(Yn y Siambr)

Cynghorwyr (Yn y Siambr):

C.A. Davies	L.D. Evans	G. Davies	P.M. Hughes
G.H. John	A. Lenny	J. Tremlett	

Cynghorwyr (Yn rhithwir):
A. Vaughan Owen

Hefyd yn bresennol (Yn rhithwir)
Y Cynghorydd D.M. Cundy
Y Cynghorydd R. James

Hefyd yn bresennol (Yn y Siambr):
W. Walters, Prif Weithredwr
J. Morgan, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymunedau
C. Moore, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol
L.R. Jones, Pennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith
P.R. Thomas, Prif Weithredwr Cynorthwyol (Rheoli Pobl a Pherfformiad)
G. Morgans, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Addysg a Phlant
A. Williams, Pennaeth y Gwasanaethau Amgylcheddol a Gwastraff
D. Hockenhull, Rheolwr y Cyfryngau a Marchnata
S. Rees, Cyfieithydd Ar Y Pryd
L. Jenkins, Swyddog Cymorth y Cabinet
N. Daniel, Pennaeth Gwasanaethau TGCh a Pholisi Corfforaethol
E. Bryer, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd
M. Runeckles, Swyddog Cefnogi Aeolodau
K. Thomas, Swyddog Gwasanaethau DemocrataiddS. Hendy, Swyddog Cefnogi Aelodau

Hefyd yn bresennol (Yn rhithwyr):
S. Hendy, Swyddog Cefnogi Aelodau

Siambr - Neuadd y Sir, Caerfyrddin. SA31 1JP ac o bell - 10.00 - 10.40 yb

1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Cafwyd ymddiheuriad am absenoldeb gan y Cynghorydd E. Thomas.

2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL

Cafwyd ymddiheuriad am absenoldeb gan y Cynghorydd E. Thomas.

3. LLOFNODI FEL COFNOD CYWIR GOFNODION CYFARFOD Y CABINET A GYNHALWYD AR 30 IONAWR 2023

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL lofnodi bod cofnodion cyfarfod Cabinet a gynhaliwyd ar 30 Ionawr 2023 yn gofnod cywir.

4. CWESTIYNAU Â RHYBUDD GAN YR AELODAU

Dywedodd y Cadeirydd fod tri chwestiwn â rhybudd wedi cael eu cyflwyno gan yr Aelodau.

4.1. CWESTIWN GAN Y CYNGHORYDD ROB JAMES I'R CYNGHORYDD GARETH JOHN YR AELOD CABINET DROS ADFYWIO HAMMDDEN DIWYLLIANT A THWRISTIAETH

'A all yr Aelod Cabinet dros Adfywio roi diweddariad ar geisiadau'r Gronfa Ffyniant Bro ar gyfer Llanelli a chadarnhau ai bwriad y weinyddiaeth yw ailgyflwyno'r cynlluniau yn ystod cam 3?.

Ymateb y Cynghorydd Gareth John – yr Aelod Cabinet dros Adfywio, Hamdden, Diwylliant a Thwristiaeth:-
Diolch i chi am y cwestiwn. Gan fod y cwestiwn wedi ei anelu'n benodol at y gronfa ffyniant bro, does dim llawer y gallaf ei ychwanegu mewn gwirionedd at y datganiad a wnes i yng nghyfarfod diwethaf y Cyngor lle cyhoeddais ein bod wedi cael gwybod bod y ddau gais, neu'r ceisiadau, yr oeddem wedi'u cyflwyno mewn cysylltiad â'r gronfa, mewn perthynas ag adfywio canol Tref Llanelli a'r cysylltiadau trafnidiaeth gwell a'r gyfnewidfa rhwng y canol a'r orsaf reilffordd a bod Pentre Awel wedi bod yn aflwyddiannus. Fel y dywedais, mae'n debyg bod 525 o geisiadau, y dyfarnwyd cyllid i 111 ohonynt yn rownd dau, cyfanswm sy'n cyfateb i ychydig dros £2bn, ac mae hyn yn cyfateb i gyfradd llwyddiant o 1 allan o 5. Eto, fel y nodais yng nghyfarfod y Cyngor, rydym yn parhau i fod yn siomedig yn naturiol gyda'r newyddion yn enwedig o ystyried yr angen clir, cryfder ac ansawdd ein cais a'r swm helaeth o amser, ymdrech a chostau a fuddsoddwyd wrth gyflwyno'r cais.

Fel y dywedais, rydym wedi gofyn, ac wedi cael ein haddo, ac yn dal i ddisgwyl adborth gyda'r nod o gefnogi cynigion a chyflwyniadau yn y dyfodol gan gofio gan ein bod yn gwybod y bydd trydedd rownd o'r gronfa ffyniant bro maes o law. Yr unig beth y byddwn i'n ei ychwanegu yw na nodwyd ar unrhyw adeg yn ystod y broses ymgeisio y byddai'r awdurdod o dan unrhyw anfantais yn ystod yr ail rownd o gynnig o ganlyniad i lwyddiant yn y rownd gyntaf. Nid yw'n ymddangos bod hyn yn wir, gan y byddai'n ymddangos, wrth ddadansoddi'r dyfarniadau, nad oedd unrhyw awdurdod wedi bod yn llwyddiannus yn y rownd gyntaf wedi derbyn cynnig yn yr ail rownd ac mai dim ond pedwar awdurdod lleol yng Nghymru sydd heb gael unrhyw lwyddiant yn y ddwy rownd. Ac, fel y nodais i'r Cyngor, gan fynd â'r ddwy rownd gyda'i gilydd, mae Sir Gaerfyrddin yn ail yn unig i Gaerdydd ar gyfanswm y cyllid sydd wedi'i ddyrannu hyd yma.

Rydym yn aros am yr adborth fel y nodais a byddwn wedyn yn ei asesu cyn ailgyflwyno neu ddiwygio ein cyflwyniad, os yn gymwys, o dan y drydedd rownd a addawir pan fyddwn yn derbyn yr adborth hwnnw o'r cyhoeddiad. Diolch yn fawr

Cwestiwn Atodol gan y Cynghorydd Rob James:-
Nid oedd unrhyw gwestiwn atodol

4.2. CWESTIWN GAN Y CYNGHORYDD ROB JAMES I'R CYNGHORYDD ALUN LENNY, YR AELOD CABINET DROS ADNODDAU

'A all yr Aelod Cabinet dros Adnoddau ddweud a oes camau'n cael eu cymryd yn ddi-oed i gwblhau misoedd o waith yn Heol Las, Caerfyrddin, wedi i'r tarfu hwn daro'n ariannol ar fusnesau, ac a fydd y Cyngor yn ymgysylltu â'r busnesau yr effeithiwyd arnynt i drafod iawndal am golli busnes'

Ymateb gan y Cynghorydd Alun Lenny - yr Aelod Cabinet dros Adnoddau:-
Rwy'n ddiolchgar iawn i'r Cynghorydd James am y cyfle i roi diweddariad ar y cynllun i wella gorsaf fysiau Caerfyrddin, sy'n cynnwys Heol Las, cynllun a alluogwyd trwy Gymorth Llywodraeth Cymru fel rhan o'i strategaeth i wella seilwaith trafnidiaeth gyhoeddus. Bydd y cynllun yn cydymffurfio â'r strategaeth drafnidiaeth newydd sy'n amlinellu ffyrdd gwahanol o gefnogi trafnidiaeth gyhoeddus. Mae'n blaenoriaethu teithwyr a newid hinsawdd fel yr eglurodd Lee Waters AS, Dirprwy Weinidog, ar gyfer newid hinsawdd ddydd Mercher diwethaf. Ar ôl i'r gwaith gael ei orffen, ac fe fydda i'n trafod hynny yn y man, bydd gorsaf fysiau Caerfyrddin yn lle llawer mwy croesawgar, atyniadol a diogel i deithwyr, gan gynnwys cysgodfannau bysiau mwy yn Heol Las, gyda byrddau electronig yn darparu amseroedd bysiau, yn debyg i'r rheiny a geir mewn gorsafoedd rheilffordd. Mae Heol Las eisoes yn stryd fwy deniadol oherwydd y gwaith gan fod wyneb newydd wedi'i osod ar y palmentydd ac mae lleoedd mwy diogel i gerddwyr groesi'r ffordd. Bydd hefyd yn gysylltiad llawer gwell rhwng yr orsaf reilffordd a'r Dref. Rhaid i mi gydnabod nad yw'r datblygiad wedi bod heb ei anawsterau ac rwy'n gwerthfawrogi'n llwyr bod ambell siop yn Heol Las yn dweud ei fod wedi cael effaith andwyol ar fusnes. Yn anffodus, rhwystrwyd y gwaith oherwydd ymatebion hwyr gan ddarparwyr cyfleustodau. Hynny yw, cwmnïau a allai fod â gwifrau neu bibellau o dan y ddaear. Cafodd gwaith ei atal hefyd rhwng canol Tachwedd a dechrau Ionawr er mwyn peidio amharu ar fusnesau lleol dros gyfnod y Nadolig. Darparwyd llefydd parcio am ddim ym maes parcio Heol Las hefyd yn ystod y cyfnod hwnnw er mwyn lliniaru'r effaith ar fusnesau. Mae'n wir y bu rhai rhwystrau i rai mynedfeydd busnesau am resymau anochel, ond mae'n debyg mai dim ond am ychydig oriau y bu hynny a bu i'r contractwr ymdrechu i gynnig mynedfeydd dros dro i gwsmeriaid. Erbyn hyn mae'r gwaith ar y palmant tu allan i'r siopau wedi ei orffen ers rhai wythnosau ac mae'n edrych yn wych. Bydd y gwaith o osod wyneb newydd ar y stryd ei hun yn dechrau heno. Bydd y gwaith yn digwydd dros nos am bedair noson, os yw'r tywydd yn caniatáu. Wedyn bydd gwaith yn parhau i wneud gwelliannau sylweddol y tu mewn i ardal bresennol yr orsaf fysiau sydd i ffwrdd o'r stryd. Daw hynny i ben yn ystod y gwanwyn. Yn dilyn hynny bydd gan Dref Caerfyrddin orsaf fysiau o'r radd flaenaf a dylai hynny ddenu rhagor o deithwyr i Heol Las er lles y siopau sydd yno ac, yn wir, y dref ei hun.

Gan gyfeirio'n fyr at ail ran y cwestiwn, sef, yr ymholiad am iawndal, nid oes cynllun digolledu o fewn y system Trethi Annomestig. Fodd bynnag, os gall busnesau unigol brofi eu bod wedi dioddef caledi ariannol, mae'n bosibl y gallai'r Cyngor ystyried hynny o dan yr hyn a elwir yn Adran 13A. Byddai angen i swyddogion weld cyfrifon banc ac ati fel tystiolaeth fod y caledi o ganlyniad uniongyrchol i'r gwaith datblygu. Ond er bod trafferthion dros dro, rwy'n hyderus y bydd perchnogion y siopau yn Heol Las yn gweld cyn bo hir bod y datblygiad presennol yn creu dyfodol mwy llewyrchus i'r busnesau.

Diolch eto am y cwestiwn
Cwestiwn Atodol gan y Cynghorydd Rob James:-

Alla i ddiolch i'r aelod Cabinet am y wybodaeth fanwl iawn honno. Rwy'n siŵr fel aelod lleol bod busnesau hefyd wedi cysylltu ag ef ynglŷn â'r tarfu. Yn amlwg, rydym yn croesawu'r datblygiad, ond efallai fod tarfu wedi bod ar rai o'r busnesau. Mae'n bwysig eich bod wedi tynnu sylw at Adran 13A. Diolch i chi am hynny.

A fyddech chi'n cwrdd â mi fy hun a busnesau yr effeithir arnynt, gyda Swyddogion, i ymchwilio i weld a oes cyfle i'r busnesau dan sylw wneud cais o dan Adran 13A am yr iawndal hwnnw am y tarfu. Diolch

Ymateb gan y Cynghorydd Alun Lenny - yr Aelod Cabinet dros Adnoddau

Rwy'n credu y byddai hynny'n destun cliriad cyfreithiol gan ein swyddogion ond, byddaf yn sicr yn ystyried hynny, os yw hynny'n dderbyniol. Diolch yn fawr

4.3. CWESTIWN GAN Y CYNGHORYDD ROB JAMES I'R CYNGHORYDD DARREN PRICE, ARWEINYDD Y CYNGOR

'A fyddai Arweinydd y Cyngor yn cytuno â mi, lle mae busnes wedi creu llety - drwy ddefnyddio rhandy, adnewyddu ysgubor segur ar fferm neu rhyw ddull arall - nad yw'r arfer hwn yn tynnu stoc dai o gymunedau lleol nac ychwaith yn ail gartref yn yr ystyr draddodiadol, ac, o'r herwydd, ni ddylai fod yn destun unrhyw bremiwm y Dreth Gyngor?

Ymateb gan y Cynghorydd Emlyn Dole, Arweinydd y Cyngor:-

Diolch am y cwestiwn ac rwy'n meddwl ei fod yn gyfle da mewn gwirionedd i geisio archwilio rhai o'r materion sy'n ymwneud â hyn. Fel y byddwch yn ymwybodol, rydym yn ymgynghori ar hyn o bryd ynghylch cyflwyno Premiwm Treth Gyngor ar eiddo gwag ac ail gartrefi ac mae'r ymgynghoriad hwnnw'n parhau a bydd adroddiad yn dod i'r Cabinet a'r Cyngor dros yr wythnosau nesaf felly, ei amserol. Yn amlwg, rydych chi'n ymwybodol o'r manylion ynghylch hyn ond, roeddwn i'n meddwl y byddai'n gyfle i roi rhywfaint o gyd-destun i eraill sy'n gwrando sydd heb gael y wybodaeth ddiweddaraf o ran y cyd-destun. Felly, yn amlwg, fel y soniais, rydym yn ymgynghori. Mae gennym ni 2,000 o eiddo gwag ar draws y sir ar hyn o bryd. Mae gennym ni tua 1,000 o ail gartrefi / tai gwyliau ar draws y sir hefyd. Felly, mae hynny'n golygu bod gennym 3,000 o eiddo ar draws y sir sydd naill ai ddim yn cael eu defnyddio o gwbl neu'n cael eu tanddefnyddio mewn rhai achosion. Y gwrthwyneb i hynny, wrth gwrs, yw ein bod ni'n gwybod bod gennym ni dros 3,000 o bobl yn aros ar y rhestr dai ac, yn foesol, rwy'n credu bod yna ddyletswydd arnom ni a'r llywodraeth genedlaethol i geisio mynd i'r afael â'r sefyllfa honno ac ail-gydbwyso'r farchnad.

Rwy'n meddwl bod yna farn unfrydol, yn genedlaethol, bod angen gwneud rhywbeth i fynd i'r afael â phroblem eiddo gwag ac ail gartrefi ac, wrth gwrs mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn glir yn dilyn trafodaethau gyda Phlaid Cymru, a chynnwys y Cytundeb Cydweithredu, bod angen gweithredu ar ystod eang o faterion. Yn amlwg mae'r Gweinidog, Julie James, yn awyddus i wneud cynnydd ar hyn ac mae hi wedi cael ei dyfynnu'n barhaus a byddaf yn ei dyfynnu'n

uniongyrchol, dim ond er mwyn rhoi rhywfaint o gyd-destun. Beth mae hi'n ei ddweud yw 'bod y cynnydd parhau ym mhrisiau tai yn golygu na all y bobl, yn enwedig cenedlaethau iau, fforddio byw yn y cymunedau maen nhw wedi eu magu ynddyn nhw bellach. Mae nifer uchel o ail gartrefi neu dai gwyliau yn gallu cael effaith andwyol iawn ar gymunedau bychain ac mewn rhai ardaloedd gallai fod yn fygwth i'r Gymraeg yn cael ei siarad ar lefel gymunedol. Bod brys a phwysigrwydd y sefyllfa yn galw am ymyrraeth bellach sy'n golygu bod camau gweithredu gwirioneddol ac uchelgeisiol yn cael eu cyflawni ar gyflymder i sicrhau tegwch yn y system dai'. Mae'n rhaid i mi ddweud fy mod i'n cytuno'n gyfan gwbl gyda'r teimladau hynny. Rwy'n credu ei bod yn bwysig iawn bod Llywodraeth Cymru'n gweithredu mewn sawl ffordd i geisio mynd i'r afael â hyn. Un o'r pwerau maen nhw wedi rhoi i awdurdodau lleol wrth gwrs yw cynllun premiwm y dreth gyngor. Yn y gorffennol roedd penderfyniad i sicrhau bod Cynghorau yn gallu cyflwyno premiwm y dreth gyngor o 100% ond ers hynny mae wedi cael ei gynyddu i 300%. Mae newidiadau o ran y broses gynllunio i sicrhau bod y gwahaniaeth a'r eglurder rhwng prif annedd, ail gartrefi a thai gwyliau tymor byr yn cael eu mireinio ymhellach yn y dyfodol ac mae camau hefyd i ddatblygu trefn drwyddedu statudol ar gyfer tai gwyliau. Rwy'n credu bod yr holl fesurau hyn yn bwysig, ac ni ellir eu hystyried ar wahân. Mae angen eu hystyried yn eu cyfanrwydd.

Rwy'n credu ei bod hefyd yn bwysig nodi bod awdurdodau lleol ar draws Cymru yn ystyried hyn bellach. Mae nifer o Gynghorau, er enghraifft Gwynedd a Sir Benfro, eisoes wedi cyflwyno Premiymau'r Dreth Gyngor yn yr ardaloedd hyn ac wedi gwneud hynny ers nifer o flynyddoedd. Ond mae gyda ni sefyllfa nawr lle mae cynghorau fel Rhondda Cynon Taf, Sir Fynwy, Conwy, Pen-y-bont ar Ogwr a ni ein hunain wrth gwrs yn ystyried cyflwyno mesurau tebyg ac mae'n dda gweld bod cynghorau ledled Cymru yn cymryd camau cadarnhaol yn hynny o beth.

Gan gyfeirio'n benodol at y manylion yn eich cwestiwn, Rob, mae nifer o eithriadau sy'n berthnasol o ran premiymau'r dreth Gyngor, yn enwedig o ran ail gartrefi. Mae saith dosbarth sydd wedi'u heithrio o bremiwm y dreth gyngor:-

- Yr un cyntaf yw preswylfeydd sy'n cael eu marchnata i'w gwerthu;
- Yr ail un yw preswylfeydd sy'n cael eu marchnata i'w gosod;
- Y trydydd un, sy'n adlewyrchu'n uniongyrchol y cwestiwn rydych chi'n ei ofyn y bore yma, yw rhandai sy'n rhan o'r brif breswylfa neu yr ystyrir eu bod yn rhan ohoni;
- Mae dosbarth pedwar yn ymwneud â phreswylfeydd a fyddai'n unig neu'n brif breswylfa rhywun oni bai eu bod yn byw yn llety'r lluoedd arfog. Rwy'n credu bod hynny'n bwysig iawn;
- Mae dosbarth pump yn ymwneud â lleiniau carafanau ac angorfeydd cychod sydd wedi'u meddiannu. Maent wedi'u heithrio;
- Mae dosbarth chwech yn cyfeirio at gartrefi tymhorol lle mae amodau cynllunio yn gwahardd meddiannaeth gydol y flwyddyn ac, unwaith eto, mae hynny'n cyfeirio at y cyfeiriad sydd gennych y bore yma o ran ysguboriau mewn llawer o achosion
- Mae dosbarth saith yn ymwneud â phreswylfeydd sy'n gysylltiedig â swyddi

Felly, mae amrywiaeth o breswylfeydd ac eiddo sy'n disgyn y tu allan i Reoliadau Premiwm y Dreth Gyngor. Y diffiniad o ail gartref yw 'preswylfa nad yw'n unig neu'n brif gartref rhywun ac sydd wedi'i dodrefnu'n sylweddol. Mae preswylfeydd lle mae amod cynllunio yn atal deiliadaeth am gyfnod parhaus o leiaf 28 diwrnod o leiaf mewn unrhyw gyfnod o ddeuddeg mis megis chalets a chartrefi gwyliau pwrpasol wedi'u cynnwys yn y diffiniad hwn ac mae gan breswylfeydd o'r fath hawl i eithriadau dosbarth chwech, fel y soniais.

Gan gyfeirio at yr enghraifft ysgubor a roddwyd gennych, byddwch yn ymwybodol mai'r arfer cyffredin yw rhoi caniatâd cynllunio ar gyfer datblygiad preswyl a chyfyngu ar ei feddiannaeth i ddefnydd llety gwyliau yn unig. Gall hyn fod yn wir yn aml gydag addasiadau ysgubor lle mae'r caniatâd a geisir ar gyfer ei ddefnyddio at ddibenion llety gwyliau yn hytrach na llety preswyl parhaol ac, fel y soniwyd, rhoddir eithriad i'r rheiny o dan ddosbarth tri. Fodd bynnag, os yw ysgubor wedi'i haddasu heb y cyfyngiad o ran defnydd llety gwyliau yn unig, neu i fod yn brif breswylfa neu'n unig breswylfa i rywun, wedyn byddai angen ei dosbarthu'n ail gartref neu'n llety gwyliau ac felly byddai tâl premiwm yn berthnasol.

Felly, ar y cyfan, beth rwy'n trio ei ddweud Rob, yw ei bod yn sefyllfa eithaf cymhleth. Mae llawer o bethau i'w hystyried yma. Nid achos o Bremiwm y Dreth Gyngor yn unig ydyw. Mae'r drefn gynllunio wir yn rhan annatod o hyn wrth i ni geisio gweithredu premiwm y dreth gyngor ond hefyd wrth i ni geisio datblygu'r ardal yn y blynyddoedd i ddod. Rwy'n credu ei bod yn deg dweud bod hwn wedi bod yn faes heb ei reoleiddio ers cryn dipyn o amser, ond rwy'n meddwl bod y strwythur y mae Llywodraeth Cymru yn ei gyflwyno i'r sector o'r diwedd wedi'i groesawu. Yn olaf, hoffwn ychwanegu na hoffwn ragweld unrhyw gyfraniad o ran yr ymgynghoriad, sy'n cael ei gynnal o hyd, ond, yn amlwg, wrth i ni ystyried hyn fel Cabinet, byddwn yn sicrhau bod yr holl dystiolaeth hon yn cael ei hystyried cyn cyrraedd penderfyniad. Diolch yn fawr

Cwestiwn Atodol gan y Cynghorydd Rob James:-

Diolch am y wybodaeth honno. Dros yr wythnosau a'r misoedd diwethaf, rwyf wedi bod yn cyfarfod ag unigolion sy'n rhan o'r sector twristiaeth amaethyddol sydd, yn fy marn i, yn sector pwysig i'r Cyngor hwn. Rwy'n credu bod angen i ni gefnogi deiliaid ffermydd i arallgyfeirio'u gweithrediadau ac rwy'n credu bod cynnal llety gwyliau fel rhan o hynny yn gam pwysig. Un o'r pethau sydd wedi'i ddweud wrthyf yw bod y newidiadau i'r cyfraddau deiliadaeth h.y. rwy'n credu mai 180 diwrnod sydd eu hangen i gael eu dosbarthu fel busnes hyfyw gan Lywodraeth Cymru oherwydd newidiadau diweddar yn golygu yr effeithir arnynt yn fawr gan y newid hwn yn y dreth gyngor. Felly, yr hyn yr wyf ei eisiau gennych chi yw Arweinydd, ymrwymiad ein bod yn ceisio amddiffyn twristiaeth amaethyddol yn y cyngor hwn gydag unrhyw newidiadau y gallem ystyried eu cyflwyno. Diolch yn fawr ichi

Ymateb gan y Cynghorydd Emlyn Dole, Arweinydd y Cyngor:-

Diolch Rob. Y trothwy yw 182 diwrnod, nid 180, ond mae'r pwynt wedi'i wneud yn dda. O'r dechrau, rwy'n meddwl ei bod yn bwysig nodi nad cael unrhyw effaith negyddol ar y diwydiant twristiaeth yw ein bwriad. Rydym yn cydnabod yn llwyr bod y sector twristiaeth yn hanfodol, yn enwedig mewn rhai rhannau o'r sir, ac

rwy'n credu bod y cynnig sy'n destun ymgynghoriad cyhoeddus ar hyn o bryd yn adlewyrchu hynny. Fel y soniais yn gynharach, mae lle i gyflwyno premiwm o 300% ar ail gartrefi ac nid ydym wedi awgrymu gwneud hynny fel rhan o'r ymgynghoriad. Rydym wedi awgrymu y byddai cyfraniad o 50% neu 100% yn ddoeth. Rwy'n credu bod hynny wedi'i seilio ar y dysgu a'r profiad ymysg awdurdodau eraill sydd eisoes wedi gweithredu hyn. Fel y soniais mae wedi cael ei weithredu yng Ngwynedd a Sir Benfro ers cryn amser. Mae'r ardaloedd hynny yn dibynnu'n fawr ar y sector twristiaeth ac nid wyf yn cael yr adborth gan yr ardaloedd hynny bod y premiwm ar y lefelau hynny wedi cael effaith niweidiol sylweddol ar y sector twristiaeth. Ond rwy'n credu bod pwynt ehangach yma y mae angen i ni ei ystyried, ac rwy'n meddwl bod y drefn gynllunio yn cynnig cyfle i ni fynd i'r afael â hyn dros y blynyddoedd sydd i ddod, sef llety gwyliau tymor byr yn y sir. Os ydym yn gweld bod busnesau ar draws y sir yn cael trafferth cyrraedd y trothwy hwn, rwy'n credu bod trafodaeth i'w chael o ran cyflenwad llety gwyliau tymor byr a chynaliadwyedd y busnesau hynny. Rydym yn awyddus i ymgysylltu â'r sector ynghylch hyn dros y misoedd a'r blynyddoedd sydd i ddod. Diolch

5. CWESTIYNAU A RHYBYDD GAN Y CYHOEDD

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd dim cwestiynau wedi dod i law gan y cyhoedd.

6. STRATEGAETH GORFFORAETHOL CYNGOR SIR CAERFYRDDIN 2022-27

Bu'r Cabinet yn ystyried Strategaeth Gorfforaethol 2022-2027 y Cyngor, oedd yn cynnwys amcanion llesiant y Cyngor a phennu cyfeiriad teithio a blaenoriaethau ar gyfer y sefydliad dros gyfnod y weinyddiaeth bresennol, gan hefyd gyflawni fframwaith gweledigaeth ac ymrwymiadau'r Cyngor yn ystod y cyfnod. Byddai'r strategaeth newydd yn canolbwyntio ar nifer llai o amcanion ar sail poblogaeth wrth nodi'r blaenoriaethau thematig, blaenoriaethau gwasanaethau a galluogwyr busnes craidd y byddai'r Cyngor yn ceisio gwneud cynnydd yn eu cylch yn ystod y cyfnod hwnnw.

Nodwyd mai dyma oedd amcanion llesiant arfaethedig newydd y Cyngor:-

1. Galluogi ein plant a'n pobl ifanc i gael y dechrau gorau posibl mewn bywyd (Dechrau'n Dda)
2. Galluogi ein preswylwyr i fyw a heneiddio'n dda (Byw a Heneiddio'n Dda)
3. Galluogi ein cymunedau a'n hamgylchedd i fod yn iach, yn ddiogel ac yn ffyniannus (Cymunedau Ffyniannus)
4. Moderneiddio a datblygu ymhellach fel Cyngor gwydn ac effeithlon (Ein Cyngor)

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL ARGYMELL I'R CYNGOR gymeradwyo Strategaeth Gorfforaethol 2022-2027 y Cyngor.

7. STRATEGAETH DRAWSNEWID Y CYNGOR

Bu'r Cabinet yn ystyried y Strategaeth Drawsnewid arfaethedig oedd â'r nod o ddarparu fframwaith strategol i fod yn sail i raglen o newid sefydliadol sylweddol i gefnogi'r Cyngor i gyflawni ei nodau a'i amcanion ehangach, fel y nodir yn y Strategaeth Gorfforaethol (Gweler Cofnod 5 uchod). Y nod hefyd oedd cyflymu'r

broses foderneiddio ar draws y Cyngor ymhellach, gan ei ganiatáu i barhau i ddarparu gwasanaethau cost effeithiol o ansawdd uchel o fewn cyd-destun amgylchedd allanol heriol.

Nodwyd bod y Strategaeth yn cynnwys yr 8 blaenoriaeth thematig ganlynol:-

- Y gweithlu,
- Y gweithle,
- Arbedion effeithlonrwydd a gwerth am arian
- Incwm a masnacheiddio
- Dylunio a gwella gwasanaethau
- Digidol a chwsmeriaid
- Datgarboneiddio
- Ysgolion

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL gymeradwyo'r Strategaeth Drawsnewid.

8. LLOFNODI DATGANIAD CAEREDIN GAN GYNGOR SIR CAERFYRDDIN

Bu'r Cabinet yn ystyried adroddiad ar lythyr a ddaeth i law gan Julie James (Gweinidog Newid Hinsawdd Llywodraeth Cymru), a anfonwyd ym mis Medi 2021, i bob Awdurdod Lleol yng Nghymru gan geisio addewidion o gefnogaeth dros Ddatganiad Caeredin, oedd yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu fframwaith bioamrywiaeth byd-eang ôl-2020 h.y: “yn cydnabod y rôl bwysig y mae llywodraethau is-genedlaethol yn ei chwarae wrth gefnogi natur a bioamrywiaeth”

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL

8.1 Bod y Cyngor yn llofnodi Datganiad Caeredin ar Fioamrywiaeth Fyd-eang a bod yr Aelod Cabinet dros Ddatgarboneiddio, Newid Hinsawdd a Chynaliadwyedd yn llofnodi'r datganiad;

8.2 Bod swyddogion yn sicrhau bod y broses ddyledus ar gyfer llofnodi'r Datganiad yn cael ei gweithredu a bod llofnodi Datganiad Caeredin yn cael cyhoeddusrwydd gan Dîm Marchnata a Chyfathrebu Cyngor Sir Caerfyrddin.

9. LLAWLYFR CYNNAL A CHADW Y CYNLLUN RHEOLI ASEDAU PRIFFYRDD - RHANNAU 4.5, 4.6 A 4.7

Bu'r Cabinet yn ystyried adroddiad ar fabwysiadu rhannau 4.5-4.7 o Lawlyfr Cynnal a Chadw y Cynllun Rheoli Asedau Priffyrdd. Er bod y cynllun wedi'i fabwysiadu gan Fwrdd Gweithredol y Cyngor ym mis Gorffennaf 2018, rhoddwyd gwybod i'r Cabinet fod y llawlyfr cynnal a chadw, yr oedd rhan 4 yn rhan ohono, yn cael ei ddatblygu fel portffolio o lawlyfrau penodol ynghylch rheoli amrywiaeth o asedau priffyrdd. Yn unol â hynny, roedd Rhannau 4.1- 4.4 o'r llawlyfr wedi'u mabwysiadu yn 2021, a byddai adrannau 4.5 – 4.7, pe bai'n cael eu mabwysiadu, yn rhoi sylw i'r agweddau a nodir isod, gydag adrannau pellach yn cael eu datblygu yn y blynyddoedd i ddod:-

Rhan 4.5 - Rheoli Draenio Priffyrdd
Rhan 4.6 - Rheoli Geotechnegol
Rhan 4.7 - Ymateb Brys ar y Priffyrdd.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL fod Rhannau 4.5, 4.6 a 4.7 o Lawlyfr Cynnal a Chadw y Cynllun Rheoli Asedau Priffyrdd yn cael eu mabwysiadu.

10. CYLLIDEB PARTNERIAETH 2022 -2023

Rhoddwyd gwybod i'r Cabinet fod y Cytundeb Cyfreithiol mewn perthynas â sefydlu Consortiwm Addysg Rhanbarthol Partneriaeth yn darparu'r mater canlynol a gadwyd yn ôl i bob un o'i awdurdodau cyfansoddol "Cymeradwyo Cyllideb Flynyddol gyntaf Partneriaeth ac unrhyw Gyllideb Flynyddol ddilynol a fyddai y tu hwnt i gwmpas yr awdurdod a ddirprwyir i'r Cyd-bwyllgor yn ei gylch gorchwyl"

Yn unol â'r gofyniad hwnnw, bu'r Cabinet yn ystyried gyllideb flynyddol gyntaf Partneriaeth, fel y'i cymeradwywyd gan Gyd-bwyllgor Partneriaeth ar 29 Ebrill 2022.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL:-

10.1 Nodi'r rhagdybiaethau a'r amcangyfrifon a wnaed wrth lunio'r Gyllideb Flynyddol Gyntaf ar gyfer 2022-23 a chymeradwyo'r Gyllideb Flynyddol gyntaf ar gyfer Consortiwm Addysg Rhanbarthol Partneriaeth, gan gynnwys cyfraniadau pob Cyngor, a gyfrifwyd yn unol â thelerau'r cytundeb cyfreithiol;

10.2 Nodi bod y Cyd-bwyllgor wedi penderfynu yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 29 Ebrill 2022 bod Prif Swyddog Cyllid Arweiniol Partneriaeth (Swyddog Adran 151 y Cyngor Arweiniol sy'n gyfrifol am gyllid) wedi'i awdurdodi i wneud gwelliannau i'r Gyllideb Flynyddol gyntaf ar gyfer 2022-23 wrth i ragdybiaethau ac amcangyfrifon gael eu cadarnhau a bod y sefyllfa honno'n cael ei chymeradwyo.

11. UNRHYW FATER ARALL Y GALL Y CADEIRYDD OHERWYDD AMGYLCHIADAU ARBENNIG BENDERFYNU EI YSTYRIED YN FATER BRYS YN UNOL AG ADRAN 100B(4)(B) O DDEDDF LLYWODRAETH LEOL, 1972.

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd unrhyw eitemau eraill o fater brys.

_____ _____

CHAIR **DATE**

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol